## Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CBAC, CCEA a Pearson

## Hysbysiad i Ganolfannau

# Cyfarwyddiadau ar gyfer cynnal TGAU, TAG UG a Safon Uwch Ieithoedd Tramor Modern a Gwyddeleg:

(chwaraewyr CD a chwaraewyr MP3, gliniaduron, tabledi, dyfeisiau digidol eraill a digido deunydd gwrando)

## Yn weithredol o 1 Medi 2023

## 1. Defnyddio chwaraewyr CD neu chwaraewyr MP3, gliniaduron, tabledi a dyfeisiau digidol eraill

1.1 Mae'r cyfarwyddiadau canlynol yn ymwneud â defnyddio chwaraewyr CD neu chwaraewyr MP3, gliniaduron, tabledi a dyfeisiau digidol eraill mewn arholiadau Gwrando TGAU, TAG UG a Safon Uwch.

(**Sylwch:** Dim ond ar gyfer arholiadau TAG UG a Safon Uwch y caniateir chwaraewyr CD a dyfeisiau digidol unigol.)

- **Rhaid** i'r swyddog arholiadau lofnodi am ddeunyddiau gwrando a ddarperir ar ffurf CD yn unol â chyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*. Nid yw hyn yn berthnasol pan fydd canolfan yn lawrlwytho'r deunyddiau gwrando o safle allrwyd diogel corff dyfarnu.

- **Rhaid** i'r ganolfan ddarparu chwaraewyr CD, chwaraewyr MP3, gliniaduron, tabledi a dyfeisiau digidol eraill. **Ni all** ymgeisydd ddefnyddio ei chwaraewr CD, chwaraewr MP3, gliniadur, tabled neu ddyfais ddigidol arall ei hun e.e. ffôn symudol.

- Dylid lawrlwytho deunyddiau gwrando TAG UG a Safon Uwch ar ddyfeisiau canolfannau o safle allrwyd diogel y corff dyfarnu (neu o CD). **Ni ddylid gwneud hyn fwy nag un diwrnod gwaith cyn amser dechrau cyhoeddedig yr arholiad.**

- Argymhellir bod aelod o staff o adran TG y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon.

- **Ni all** athrawon pwnc wirio'r dyfeisiau digidol ar ôl lawrlwytho'r deunyddiau gwrando.

- Dim ond y deunydd gwrando ar gyfer yr arholiad Gwrando TGAU, TAG UG neu Safon Uwch y gellir ei storio ar ddyfeisiau digidol. **Ni ddylid storio unrhyw ddeunydd arall**.

- **Rhaid** dychwelyd y deunyddiau cyfrinachol sy'n cael eu cyflenwi gan y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad Gwrando i gyfleusterau storio diogel y ganolfan cyn gynted ag y bydd y lawrlwytho wedi'i gwblhau ar bob dyfais ddigidol.

- **Rhaid** dychwelyd pob dyfais ddigidol sydd â deunydd cyfrinachol wedi'i storio arni i gyfleusterau storio diogel y ganolfan.
  **Rhaid** eu storio yn unol â chyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*. **Rhaid** trin y dyfeisiau digidol fel deunydd arholiad cyfrinachol tan y bydd yr arholiad wedi'i sefyll.

- **Rhaid** i'r swyddog arholiadau gadw cofnod o'r canlynol:
  - dyddiad lawrlwytho'r deunydd cyfrinachol i bob un o'r dyfeisiau digidol;
  - pryd y cafodd y dyfeisiau digidol â'r deunydd cyfrinachol arnynt eu rhoi yn y storfa ddiogel; a
  - phryd y dilëwyd y deunydd gwrando oddi ar y dyfeisiau digidol.

- **Rhaid** i ganolfannau sicrhau'r canlynol:
  - bod y ddyfais ddigidol o faint addas ac yn gallu cael ei gweithredu'n annibynnol;
  - bod pob dyfais ddigidol yn gweithio'n iawn pan fydd y deunydd gwrando'n cael ei lawrlwytho. Cyfrifoldeb y ganolfan yw cyflwr gweithio cyffredinol yr offer. **Ni fydd** cyrff dyfarnu fel arfer yn ystyried bod nam ar weithrediad y ddyfais ddigidol yn ddigon o sail dros wneud cais am ystyriaeth arbennig;
  - bod o leiaf un chwaraewr CD neu ddyfais ddigidol sbâr ar gael i ymgeiswyr pan ddefnyddir chwaraewyr CD neu ddyfais ddigidol mewn arholiad Gwrando.

- **Ni ddylai ymgeiswyr fenthyg chwaraewr CD neu ddyfais ddigidol gan ymgeisydd arall wrth i'r arholiad fynd rhagddo, am unrhyw reswm**. **Rhaid** i'r goruchwyliwr roi chwaraewr CD neu ddyfais ddigidol arall a ddarperir gan y ganolfan i'r ymgeisydd. **Rhaid** i'r ymgeisydd fod o dan oruchwyliaeth y ganolfan drwy'r amser a **rhaid** caniatáu iddo gael y cyfnod amser llawn a bennir ar gyfer yr arholiad.

- **Ar ôl cwblhau'r arholiad:**
  - **rhaid** tynnu'r ffeiliau gwrando oddi ar y dyfeisiau digidol. **Rhaid** clirio ffeiliau oddi ar y dyfeisiau digidol cyn cychwyn ar unrhyw gyfres arholiadau yn y dyfodol;
  - gall y ganolfan gadw'r ffeiliau i'w defnyddio'n fewnol gydag ymgeiswyr yn y dyfodol.

Ni chaniateir i ymgeiswyr sy'n defnyddio gliniaduron neu dabledi ddefnyddio'r rhyngrwyd ar unrhyw gyfrif. **Rhaid** analluogi mynediad i'r rhyngrwyd am gyfnod cyfan yr arholiad.

Lle mae adrannau Gwrando, Darllen a/neu Ysgrifennu mewn papur cwestiynau, **rhaid** i ganolfannau roi lle gwag addas i ymgeiswyr gwblhau pob rhan o'r papur. **Ni ddylid** symud yr ymgeiswyr i ystafell arall i gwblhau rhannau gwahanol o'r papur.

**Rhaid peidio** â defnyddio'r addasiad tempo ar ddyfais ddigidol. **Rhaid** chwarae'r recordiad ar y cyflymder gwreiddiol.

**Sylwch: Ni all** athro/athrawes pwnc, tiwtor neu aelod uwch o staff y ganolfan sy'n addysgu pwnc yr arholiad fod yn bresennol yn ystafell yr arholiad pan fydd yr arholiad Gwrando yn cael ei gynnal. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i aelod o staff y ganolfan sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad, e.e. Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern.

## 2. Digido deunydd gwrando (storio deunydd gwrando ar rwydwaith cyfrifiadur y ganolfan)

2.1 At bwrpasau digido'r deunydd gwrando TAG UG neu Safon Uwch ar rwydwaith cyfrifiadur y ganolfan, gall canolfannau gyrchu'r deunydd gwrando cyfrinachol **hyd at 1 diwrnod gwaith cyn amser dechrau cyhoeddedig yr arholiad. Nid oes** angen ceisio caniatâd ymlaen llaw gan y corff dyfarnu.

2.2 Argymhellir bod aelod o staff o adran TG y ganolfan neu'r swyddog arholiadau'n ymgymryd â'r dasg hon. **Rhaid lawrlwytho'r deunydd i ran ddiogel o rwydwaith y ganolfan, e.e. rhan o'r rhwydwaith sydd ar gael i staff TG ond ddim ar gael i'r myfyrwyr tan yr amser a ganiateir.**

2.3 **Ni all** athrawon pwnc wirio'r deunydd gwrando a lawrlwythwyd.

2.4 Unwaith y bydd y deunydd gwrando wedi'i lawrlwytho, **ni ddylid** gadael yr ystafell/man arholi heb oruchwyliaeth na heb ei chloi. **Ni chaniateir** mynediad i'r rhyngrwyd, data sydd wedi'u storio ar y gyriant caled nac unrhyw gyfryngau cludadwy fel disgiau hyblyg, CDs neu ffyn cof yn ystod yr arholiad.

## 3. Defnyddio clustffonau di-wifr

3.1 Mae'n hanfodol bod unrhyw glustffonau a ddefnyddir mewn arholiadau Gwrando yn galluogi'r ymgeisydd i gael mynediad i'r deunydd asesu a recordiwyd yn unig a dim byd arall. **Rhaid** i unrhyw glustffonau/earpods diwifr ac ati felly fod yn rhai pwynt i bwynt yn hytrach na rhai amlbwynt. Os yw canolfan yn caniatáu i ymgeiswyr ddefnyddio clustffonau di-wifr o unrhyw fath, yna cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau na all myfyrwyr gael mynediad i unrhyw beth ond y prawf Gwrando a recordiwyd drwy'r clustffonau.

**Sylwch: rhaid** i ganolfannau gyfeirio bob amser at y cyfarwyddiadau pwnc-benodol a gyhoeddir gan y corff dyfarnu perthnasol ar gyfer arholiadau Gwrando TGAU, TAG UG a Safon Uwch.

©JCQ 2023 – Yn weithredol o 1 Medi 2023